

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain Fehefin 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Maria Roberts, Einion Edwards, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto Jones, Ieuan Jones, Ffuon Williams

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain Fai 2018.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Diffibriliwr/Glasfryn

Dywedodd y clerc iddo dderbyn gair oddiwrth Guto Jones fod casgliad o £580.00 wedi ei wneud yng Nglasfryn.

Y clerc i gysylltu mhellach hefo Guto ynglŷn â lleoliad ayb. Cytunodd Einion Edwards i gysylltu gyda Tomos Hughes ynglŷn a threfnu hyfforddiant ym Mhentrellencymer.

[1.2] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.3] Baner Bro Hiraethog

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Cattle Grid Ffordd Brenig

Dywedodd y clerc iddo dderbyn gair oddiwrth Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau fod penderfyniad i beidio adnewyddu'r grid ac i lenwi'r bwch fel rhan arferol o'r ffordd.

[1.5] Hyfforddiant Plant / Beics

Penderfynwyd i beidio ymuno a'r cynllun hyfforddi ar gyfer plant oedran 3-4

Y brif Agenda

[1.6] Strategaeth Hiraethog

Croesawyd Eirian Jones Cydlynedd Strategaeth Hiraethog i'r cyfarfod, ac esboniodd ynglŷn a'r manteision ariannol fydd ar gael pan i gwmni Innogy gwblhau'r gwaith o osod y tyrbinau gwynt yng Nghoedwig Clocaenog.

Deallwyd y bydd £750,00 y flwyddyn hyd am 25 o flynyddoedd ar gael i'r ardal, a bod yn holl bwysig gwneud penderfyniad ar gyfer syniadau sut i fanteisio ar y cynllun mor fuan â phosib.

[1.7] Grŵp Cynefin/ Anghenion Tai Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad a dderbyniwyd gan Arfon Hughes. Cytunodd pawb bod yr adroddiad yn ddarlun cywir o'r sefyllfa yn y gymuned.

[1.8] Gwasanaeth Sgip

Dyweddodd y Cyng Peter Lewis fod trefniadau gan y Cyngor Sir i ddarparu gwasanaeth sgip misol yn y llan os bydd penderfyniad i gasglu ysbwriel pob pedair wythnos.

[1.9] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud. Y clerch i gysylltu eto gyda'r Cyngor Sir.

[2] Adran yr Urdd

Nodwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad tuag at gostau teithio i Eisteddfod yr Urdd

Cadeirydd\_\_\_\_\_